

Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

Penallta House,
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

Ty Penallta,
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG



www.caerphilly.gov.uk
www.caerffili.gov.uk

Am unrhyw ymholiad yn ymwneud â'r agenda hwn cysylltwch â Emma Sullivan
(Rhif Ffôn: 01443 864420 Ebst: sullie@caerphilly.gov.uk)

Dyddiad: Dydd Mercher, 29 Mai 2019

Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio a'i we-ddarlledu, ac ar gael i'w weld yn fyw ac mewn ffurf archif drwy wefan y Cyngor, ag eithrio trafodaeth yn ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriadau. Felly bydd delweddau /sain yr unigolion sy'n arsylwi neu siarad/roi tystiolaeth yng nghyfarfodydd Llawn y Cyngor ar gael yn gyhoeddusi bawb weld drwy'r we-ddarllodiad ar wefan y Cyngor www.caerffili.gov.uk.

Mae croeso i chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod, mae angen rhybudd cyfnod lleiafswm o 3 diwrnod gwaith os ydych yn dymuno gwneud hynny. Bydd cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu os gofynnir amdano.

Mae pob cyfarfod pwyllgor ar agor i'r Wasg a'r Cyhoedd, gofynnir i arsylwyr a chyfranogwyr i ymddwyn gyda pharch ac ystyriaeth at eraill. Nodwch bydd methu a gwneud hyn yn arwain at rywun yn gofyn i chi adael y cyfarfod ac efallai byddwch yn cael eich hebrwng o'r eiddo.

Annwyl Syr/Fadam,

Bydd cyfarfod y **Cyngor** yn cael ei gynnal yn **Siambwr y Cyngor - Tŷ Penallta, Tredomen, Ystrad Mynach** ar **Dydd Mawrth, 4ydd Mehefin, 2019** am **5.30 pm** i ystyried materion a gynhwysir yn yr agenda canlynol.

Yr eiddoch yn gywir,

Christina Harrhy
PRIF WEITHREDWR DROS DRO

AGENDA

Tudalennau

- 1 I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb
- 2 Cyhoeddiadau'r Maer.

1 - 2

A greener place Man gwyrddach

Correspondence may be in any language or format | Gallwch ohebu mewn unrhyw iaith neu fformat



3 I dderbyn deisebau o dan Reol Gweithdrefn 28(3).

4 Cyflwyno Gwobrau.

5 Datganiadau o Ddiddordeb.

Atgoffi'r Cyngorwyr a Swyddogion o'u cyfrifoldeb personol i ddatgan unrhyw fuddiannau personol a/neu niweidiol mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes ar yr agenda hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cyngorwyr a Swyddogion.

Cymeradwyo a llofnodi'r cofnodion canlynol:-

6 Cyngor a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2019. 3 - 8

7 Cyfarfod Blynnyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 9 Mai 2019. 9 - 20

8 I dderbyn ac i ateb cwestiynau a dderbyniwyd o dan Reol Gweithdrefn 10 (2).

1. I Arweinydd y Cyngor gan y Cyngorydd Adrian Hussey.

A all yr Arweinydd gynnig y sefyllfa ddiweddaraf o ran cyflwyno cynllun datblygu strategol a sut y gall hyn a'r Cynllun Datblygu Lleol 'cyffyrddiad ysgafn' newydd cysylltiedig helpu i wella ein perfformiad gwerth ychwanegol gros?

9 I dderbyn ac i ateb cwestiynau a dderbyniwyd o dan Reol Gweithdrefn 10(4).

1. I'r Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd gan y Cyngorydd Carl Thomas.

A all y Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am sefyllfa ddiweddaraf Llywodraeth Cymru ynghylch prisio sy'n ymwneud ag ymgynghoriadau ansawdd aer Hafodyrynys?

2. I'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros yr Economi, Isadeiledd, Cynaliadwyedd a Llesiant a Hyrwyddwr Cenedlaethau'r Dyfodol gan y Cyngorydd Andrew Whitcombe.

A all y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet rannu â mi pa gynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud tuag at fod yn Gyngor a Bwrdeistref Sirol 'wyrddach'?

Derbyn ac ystyried yr adroddiadau canlynol:-

10 Hysbysiad o Gynnig – Newid Hinsawdd. 21 - 30

11 Ymateb i Adolygiad Etholiadol Caerffili 2019. 31 - 38

12 Trefniadau Cytundeb o Brif Weithredwr Dros Dro. 39 - 42

Cylchrediad:

Pob Aelod a Swyddog Priodol

SUT FYDDWN YN DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH

Bydd yr unigolion hynny sy'n mynychu cyfarfodydd pwyllgor i siarad/roi tystiolaeth yn cael eu henwi yng nghofnodion y cyfarfod hynny, weithiau bydd hyn yn cynnwys eu man gweithio neu fusnes a'r barnau a fynegir. Bydd cofnodion o'r cyfarfod gan gynnwys manylion y siaradwyr ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor ar www.caerffili.gov.uk ac eithrio am drafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch a'r hawl i gwyno os ydych yn anhapus gyda'r modd y mae eich gwybodaeth yn cael ei brosesu.

Am wybodaeth bellach ar sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, ewch i'r Hysbysiad Preifatrwydd Cyfarfodydd Pwyllgor Llawn ar ein gwefan

<http://www.caerffili.gov.uk/CaerphillyDocs/FOI/PrivacyNotices/CommitteeMeetingsPrivacyNotice.aspx> neu cysylltwch â Gwasanaethau Cyfreithiol drwy e-bostio griffd2@caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 863028.

Gadewir y dudalen hon yn wag yn fwriadol



CIVIC DIARY ENGAGEMENTS

9th May – 2nd June 2019

9th May 2019	Council Annual General Meeting
13th May 2019	Attended launch of Fostering Fortnight at Risca Park and Waunfawr Park, Crosskeys
15th May 2019	Attended photo session at Ty Penallta to launch Fostering Fortnight
17th May 2019	Visited Trinant School
19th May 2019	Attended Caerphilly 2k and 10k race at Owain Glyndwr playing fields, Caerphilly
21st May 2019	Attended Royal Garden Party at Buckingham Palace
23rd May 2019	Attended Hendre Infants School Food and Summer Fair
30th May 2019	Attended the 20 th Anniversary of the Basement Project in Blackwood Library
2nd June 2019	Attended the opening of the Lakeside View Café at Parc Cwm Darren

Gadewir y dudalen hon yn wag yn fwriadol



Y CYNGOR

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH AR DDYDD MAWRTH 16 EBRILL 2019 AM 5.00PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd M. Adams - Maer
Y Cynghorydd J. Simmonds - Dirprwy Faer

Y Cynghorwyr:

Mrs E. Aldworth, C. Andrews, A. Angel, P.J. Bevan, C. Bezzina, A. Collis, S. Cook, C. Cuss, W. David, M. Davies, D.T. Davies, N. Dix, C. Elsbury, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, Ms E. Forehead, J.E. Fussell, A. Gair, Ms J. Gale, N. George, C. Gordon, R.W. Gough, D.T. Hardacre, L. Harding, D. Harse, D. Havard, A. Hussey, V. James, M. James, L. Jeremiah, Mrs B. Jones, S. Kent, G. Kirby, Mrs A. Leonard, Ms P. Leonard, C.P. Mann, Mrs P. Marsden, S. Morgan, B. Owen, Mrs G. Oliver, Mrs L. Phipps, D.V. Poole, D.W.R. Preece, J. Pritchard, J. Ridgewell, J.E. Roberts, R. Saralis, J. Scriven, G. Simmonds, J. Simmonds, S. Skivens, Mss E. Stenner, J. Taylor, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whiting, L. G. Whittle, T. Williams, B. Zaplatynski

Ynghyd a:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau Dros Dro), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro), R. Kyte (Pennaeth Adfywio a Chynllunio), L. James (Uwch Gynllunydd), D. Lucas (Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Datblygu), C. Forbes-Thompson (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro), M. Jacques (Swyddog Craffu), E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

TREFNIADAU FFILMIO AR GYFER GWE-DDARLLEDU A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd y Prif Weithredwr Dros Dro'r rheiny oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio ac y byddai ar gael i'r cyhoedd ar ffurf byw ac archif trwy wefan y Cyngor. Dywedodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy'r system bleidleisio electronig.

MUNUD O DAWELWCH

Safodd y Cyngor am funud o dawelwch wrth gofio am Carson Price, o Hengoed a fu farw'n drychinebus ym Mharc Ystrad Mynach ar ddydd Gwener 12 Ebrill 2019. Mynegwyd meddyliau o gydymdeimlad i'w rieni, ei deulu a'i gyfeillion.

1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorwyr L. Binding, D. Cushing, K. Dawson; Mrs C. Forehead, A. Higgs, G. Johnston, B. Miles, Mrs G. Oliver, B. Owen, T. Parry, Mrs D. Price, Mrs M.E. Sargent, W. Williams.

2. CYHOEDDIADAU'R MAER

Cyfeiriodd y Maer at y llu o ddigwyddiadau ac ymweliadau y mae ef a'r Dirprwy Faer wedi ymgymryd â hwy ers y cyfarfod diwethaf gan gyfeirio'n benodol at ddigwyddiad Rhyngwyneb a Hyfforddiant Cyngor Mwslimiaid Cymru, ail-gread Ysgol Gynradd Cwm Aber o drychineb y lofa a oedd yn deyrnged deimladwy iawn a'r dathlu pen-blwydd yn 80 oed i gyn-gynghorydd a Maer Bwrdeistref Sirol Caerffili, Mr Michael Gray, a chyfeiriodd at ymrwymadau a dyletswyddau'r Maer sydd ar y gweill yn ystod yr wythnosau nesaf.

3. I DDERBYN DEISEBAU O DAN REOL GWEITHDREFN 28(3)

Nid oedd Deisebau i'w cyflwyno.

4. CYFLWYNO GWOBRAU

Croesawodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth aelodau o Grŵp Dawns KLA a enillodd cydnabyddiaeth ledled y wlad drwy gyrraedd rownd derfynol fyw'r sioe deledu'r BBC 'The Greatest Dancer', gan brofi eu bod yn gallu sefyll eu tir ar lwyfan Dawns Genedlaethol.

Wrth alw KLA i'r blaen mynegodd yr Aelod Cabinet falchder yn eu llwyddiant gan gydnabod a llongyfarch Clara, Ariella, Ava, Izzie, Nellie, Halle-Mai, Emily a Hanna am eu perfformiad rhagorol ac am y ffordd y maen nhw'n cynrychioli Bwrdeistref Sirol Caerffili mor dda.

5. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafodd unrhyw ddatganiadau o fuddiant eu derbyn ar ddechrau neu yn ystod y cyfarfod.

6. CYNGOR ARBENNIG – 21 CHWEFROR 2019

Yn amodol ar ddiwygiad o ran bod nodyn yn dweud bod y Cynghorydd S. Kent wedi ymddiheuro am y cyfarfod pan oedd wedi bod yn bresennol, cytunwyd ar gofnodion Cyfarfod Arbennig y Cyngor, a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2019, fel cofnod cywir.

PENDERFYNWYD y dylai cofnodion Cyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2019 gael eu cymeradwyo fel cofnodion cywir a'u llofnodi gan y Maer.

7. CYNGOR – 5 MAWRTH 2019

PENDERFYNWYD bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2019 yn cael eu cymeradwyo a'u llofnodi fel cofnod cywir gan y Maer.

8. I DDERBYN AC ATEB CWESTIYNAU O DAN REOL GWEITHDREFN 10(4)

Ni chodwyd unrhyw gwestiynau.

ADRODDIADAU GAN SWYDDOGION

Ystyriwyd yr adroddiadau canlynol.

9. ADOLYGIAD CRAFFU

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Llywodraethu'r adroddiad a oedd yn amlinellu hanes a chefnidir y swyddogaeth graffu er mwyn rhoi cyddestun i adroddiad diweddar Swyddfa Archwilio Cymru, 'Craffu Addas ar gyfer y Dyfodol' a darparodd opsiynau ac awgrymiadau ar gyfer meysydd i'w gwella.

Cyfeiriodd yr Aelodau at adrannau 3.3 a 3.12 o'r adroddiad mewn perthynas â chynrychiolaeth annibynnol a gofynnwyd am i Aelod Annibynnol gael ei ystyried ar gyfer rôl is-gadeirydd a lle ar y Grŵp Arweinyddiaeth Craffu. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch penderfyniadau a wnaed mewn pwyllgorau craffu a fydd yn cael eu gwrthod yn ddiweddarach gan y Cabinet. Dywedodd Arweinydd y Cyngor y byddai'n hapus i weithio gyda phob Arweinydd Grŵp gyda golwg ar y broses gynrychioli a chraffu a chadarnhaodd y byddai'n hoffi gweld gwaith craffu'n ymgymryd ag adolygiadau polisi mwy trylwyr.

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth yr Aelodau fod Pwyllgorau Craffu yn cynghori ac felly nad oedd ganddynt bwerau gwneud penderfyniadau a gallant ond gwneud argymhellion i'r Cabinet i'w hystyried. O ran y cyfansoddiad roedd y penderfyniadau a oedd yn cael eu gwneud yn swyddogaethau'r weithrediaeth ac felly roeddent yn cydymffurfio'n llawn â'r cyfansoddiad a'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Mynegodd yr Aelodau eu cefnogaeth i Opsiwn 3, fel y nodir yn yr adroddiad, gan y byddai'n rhoi cydbwysedd y mae ei angen yn fawr ar y broses graffu; teimlid bod rhai pwyllgorau presennol yn cael eu gorlwytho.

Ceisiwyd eglurhad mewn perthynas â gwe-ddarledu cyfarfodydd y pwyllgor craffu a chadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Democraataidd Dros Dro fod hyn yn rhywbeth yr oedd yn dymuno ei wneud. Fodd bynnag, byddai hyn yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar gyfarpar, y plattform darledu a'r contractau yn cael eu harchwilio'n llawn ac yn dod o hyd i ddatrysiad cynaliadwy.

Ar ôl ystyried ei gynnwys ac am y rhesymau a roddir yn adroddiad y Swyddog, cafodd ei gynnig a'i eilio bod argymhellion 3.1, 3.2, opsiwn 3 ar 3.3 a 3.4-3.13 yn cael eu cymeradwyo a thrwy'r system bleidleisio electronig ac wrth nodi bod 1 yn erbyn hyn oedd gytunwyd gan y mwyafrif yn bresennol.

Dymunodd y Cyngorwyr J. Taylor ac M. James nodi nad oeddent wedi gallu cofrestru eu pleidlais ond pe baent wedi gwneud hynny, byddent wedi pleidleisio o blaid y cynnig.

PENDERFYNWYD:-

- (i) Bod enwau'r pwyllgorau craffu addysg ar gyfer bywyd ac iechyd, gofal cymdeithasol a lles yn cael eu newid i adlewyrchu cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu perthnasol ac nid yw bellach yn cyfeirio at hen strategaeth gymunedol Caerffili;
- (ii) I gymeradwyo opsiwn 3, fel y'i nodir yn 5.18 o adroddiad y swyddogion;
- (iii) I adolygu'r cynnydd yn nifer y pwyllgorau craffu 12 mis ar ôl rhoi'r newid ar waith;
- (iv) Bod amllder y cynhelir cyfarfodydd yn parhau ar sail bob chwe wythnos;
- (v) Bod y nifer o Aelodau sy'n eistedd ar bwllgor craffu yn parhau i fod yn 16;

- (vi) I ymgynghori â'r Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion ar bob adroddiad i'w priod byllgorau craffu yn brydlon lle y bo'n gymwys, er mwyn eu galluogi i sicrhau bod y wybodaeth y mae'r pwyllgor craffu yn gofyn amdani yn cael ei chynnwys;
- (vii) Bod ymgysylltiad y cyhoedd â'r broses graffu yn cael ei ddatblygu ymhellach drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy ddefnyddio mecanweithiau presennol y Cyngor, rhoddir ystyriaeth hefyd i we-ddarlledu cyfarfodydd pwyllgorau craffu;
- (viii) I hyfforddiant penodol ar graffu, fel y nodir yn 5.25 o adroddiad y swyddog, gael ei ddatblygu a'i fonitro ymhellach gan y Grŵp Arweinyddiaeth Craffu;
- (ix) I dynnu datganiad yr Aelod Cabinet oddi ar agendâu'r Pwyllgorau Craffu gydag aelodau'r Cabinet yn cyflwyno adroddiadau i'r pwyllgor craffu ar gyfer eu meysydd portffolio ac yn ateb cwestiynau ar yr adroddiadau hynny, gyda chymorth swyddogion i ateb materion technegol cwestiynau
- (x) Dylid ychwanegu eitem agenda benodol i'r pwyllgorau craffu wneud gwaith datblygu polisi ar agendâu'r Pwyllgor Craffu;
- (xi) Dylid datblygu cynllun gweithredu gwella craffu i'w fonitro gan y Grŵp Arweinyddiaeth Craffu;
- (xii) Dylid rhoi awdurdod i'r Swyddog Monitro ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â strwythur, maint a chylch gorchwyl pwyllgorau.

10 Y DEFNYDD O DDATA PLEIDLEISIO ELECTRONIG

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Llywodraethu'r adroddiad a oedd yn ceisio rheoleiddio'r wybodaeth am bleidleisio electronig a gyhoeddir ar ôl cyfarfodydd y Cyngor.

Er y nodwyd bod gan y Cyngor wybodaeth am sut mae pob Aelod wedi pleidleisio, yr arfer presennol yw mai dim ond y ffigyrau ar sut bleidleisiodd yr Aelodau sy'n cael eu cyhoeddi. Caiff enwau'r Aelodau eu cyhoeddi dim ond lle y gofynnwyd am bleidlais gofnodedig yn y Siambr. Dywedwyd wrth yr Aelodau os yw'r Aelodau'n dymuno cael pleidlais wedi'i chofnodi, yna gellir parhau i ofyn am hynny os bydd 10 Aelod yn cefnogi'r cynnig.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn, cafodd ei gynnig a'i eilio bod yr argymhelliad yn adroddiad y Swyddog yn cael ei gymeradwyo a thrwy'r system bleidleisio electronig cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD y dylid cynnwys enwau'r Aelodau ar y ffordd y maent wedi pleidleisio yn y pecyn gwybodaeth am bleidleisio electronig yn dilyn pob cyfarfod o'r Cyngor.

11. UWCHGYNLLUN YSTRAD MYNACH

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd yr adroddiad a oedd yn manylu ar y prif faterion a nodwyd gan ymatebwyr yn ystod yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar Uwchgyllun Drafft Ystrad Mynach a gofynnodd am gymeradwyaeth y Cyngor i fabwysiadu Uwchgyllun Terfynol Ystrad Mynach yn ffurfiol.

Noddodd yr Aelod Cabinet yn ffurfiol ar gofnod ei ddiolch i'r holl swyddogion a fu'n ymwneud â chynhyrchu'r Uwchgyllun.

Cyfeiriwyd at y rhestr o ymgynghoreion ar yr adroddiad ac nad oedd Aelodau Ward Lleol Ystrad Mynach wedi'u rhestru fel ymgynghoreion i'r adroddiad. Yna, trafodwyd y broses ymgynghori a gynhaliwyd gyda'r Aelodau Ward Lleol a rhoddwyd eglurhad bod aelodau'r wardiau lleol wedi cael cyfleoedd helaeth i gymryd rhan mewn cyfarfodydd ymgynghori â rhanddeiliaid. Ceisiwyd eglurhad wedyn mewn perthynas ag ehangu'r Ganolfan Rhagoriaeth Chwaraeon a gynigiwyd yn yr Uwchgynllun. Roedd yr Aelod yn teimlo nad oedd yr ystyriaeth wedi cael ei rhoi i nifer y cwynion gan breswylwyr sy'n byw wrth ymyl y cyfleuster, yn ogystal â hyn mynegodd yr Aelod siom mai dim ond pêl-droed neu rygbi a ddefnyddir a bod yr offer campfa sydd yn y lleoliad one ar gael gyda chymorth hyfforddwr cymwys. Aeth yr Aelod ymlaen i gyfeirio at y ffaith nad oedd y Ganolfan yn ychwanegu at werth economaidd canol y dref ond yn ychwanegu at anawsterau isadeiledd presennol yn ymwneud yn bennaf â chynhyrchu traffig ac y byddai unrhyw ehangu ond yn gwaethygu'r materion hyn.

Cadarnhaodd swyddogion fod y Ganolfan wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer rygbi a phêl-droed ac yn manylu ar restr helaeth o dimau rygbi a phêl-droed lleol oedd yn defnyddio'r cyfleusterau. Cafodd y trefniadau contract presennol eu hamlinellu ac roedd amseroedd gweithredu'n fanwl a oedd yn dangos ei bod ar gael i'r gymuned. O ran yr ystafell cryfder a chyflyru, dywedodd y swyddog ei bod yn hanfodol cael goruchwyliaeth briodol yn ystod y defnydd ohonynt er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch y defnyddiwr, oherwydd y pwysau trwm sy'n gysylltiedig â hyn.

O ran yr ymatebion a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad, awgrymodd yr Aelodau y dylid rhoi sylw i nifer y gwrthwynebiadau a ddaeth i law yn hytrach na'u rhannu'n themâu tebyg, ac y dylid rhoi sylw hefyd i ymatebion cadarnhaol.

Cadarnhaodd y swyddog fod y data y cyfeiriwyd ato ar gael ac y gellid ei gylchredeg i'r Aelodau yn dilyn y cyfarfod.

Roedd yr Aelodau yn cydnabod elfennau dyheadol yr Uwchgynllun ond mynegwyd pryderon o ran yr effaith ar yr A472, gan nad oedd unrhyw gynlluniau i wella neu adfywio'r ffordd hon. Cyfeiriwyd wedyn at effaith negyddol honedig y gwaith cwlfwr diweddar ar ganol tref Ystrad Mynach.

Cydnabu swyddogion fod yr A472 fel priffordd strategol yn destun traffig trwm, fodd bynnag rhan o'r cynllun strategol ehangach oedd cael pobl allan o geir ac oddi ar y ffyrdd a chyfeiriwyd at gynigion ar gyfer yr orsaf drenau a fyddai'n cynyddu hygyrchedd. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr Uwchgynllun yn cynnig agwedd gyfannol at adfywio, gan gynnwys twristiaeth, teithio llesol a datblygu economaidd, er enghraifft cynigion i ehangu oriau agor busnesau lleol er mwyn creu mwy o incwm yng Nghanol y Dref.

Cyfeiriodd Aelod at y gyfradd ymateb isel i'r broses ymgynghori a mynegodd bryder na ellid ystyried bod hyn yn wirioneddol gynrychioliadol. Fel y nodwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, cadarnhaodd swyddogion y bu llawer o waith gyda rhanddeiliaid amrywiol ymlaen llaw, gan eu cynnwys wrth lunio'r Uwchgynllun, drwy ofyn am eu barn a chafodd y rhain eu cynnwys wedyn yn yr Uwchgynllun a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori ac a fyddai felly wedi cael effaith ar lefelau ymateb. Mae'n bosibl hefyd na fyddai pobl a oedd yn hapus â'r cynllun wedi meddwl ymateb.

Ar ôl ystyried y cynnwys ac am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y swyddog, cafodd ei gynnig a'i eilio fod yr argymhelliaid ynddo yn cael ei gymeradwyo, drwy'r system bleidleisio electronig ac wrth nodi bod 5 yn erbyn ac 1 yn ymatal, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD:-

- (i) i nodi'r gynrychiolaeth a gafwyd fel rhan o'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus

a bod argymhelliad y swyddog a nodir yn yr adroddiad ymgynghori yn cael ei gymeradwyo;

- (ii) i gymeradwyo Uwchgynllun Ystrad Mynach fel canllaw cynllunio atodol i Gynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd at 2021, ac fel dull o dywys gweithgarwch adfywio yn ardal ehangach Ystrad Mynach.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:05pm

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn amodol ar unrhyw newidiadau neu gywiriadau y cytunwyd arnynt a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2019, ac fe'u llofnodwyd gan y Maer.

MAER



CYNGOR BLYNYDDOL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH AR DDYDD IAU 9FED MAI 2019 AM 6.00PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd M. Adams - Maer
Y Cynghorydd J. Simmonds - Dirprwy Faer

Y Cynghorwyr:

Mrs E. Aldworth, C. Andrews, A. Angel, J. Bevan, C. Bezzina, L. Binding, A. Collis, S. Cook, D. Cushing, C. Cuss, W. David, M. Davies, D.T. Davies, K. Dawson, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, Ms E. Forehead, A. Gair, Ms J. Gale, N. George, C. Gordon, R.W. Gough, L. Harding, D. Havard, D. Harse, A. Higgs, A. Hussey, M. James, G. Johnston, Mrs B. Jones, G. Kirby, Mrs A. Leonard, Ms P. Leonard, C.P. Mann, Mrs P. Marsden, B. Miles, S. Morgan, Mrs G. Oliver, B. Owen, T. Parry, Mrs L. Phipps, D.V. Poole, D.W.R. Preece, J. Ridgewell, J.E. Roberts, R. Saralis, Mrs M.E. Sargent, J. Scriven, G. Simmonds, Ms E. Stenner, J. Taylor, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whiting, L.G. Whittle, T. Williams, W. Williams, B. Zaplatynski.

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), S.M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro Cymunedau), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), R. Tranter (Swyddog Monitro a Phennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol) ac A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

1. TREFNIADAU FFILMIO AR GYFER GWE-DDARLLEDU A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd y Prif Weithredwr Dros Dro'r rheiny oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio ac y byddai ar gael i'r cyhoedd ar ffurf byw ac archif trwy wefan y Cyngor. Dywedodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy'r system bleidleisio electronig.

2. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr P.J. Bevan, N. Dix, C. Elsbury, Mrs C. Forehead, J. E. Fussell, D. Hardacre, V. James, L. Jeremiah, S. Kent, Mrs D. Price, J. Pritchard ac S. Skivens.

3. DATGANIAD BUDDIANNAU

Ni chafodd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau eu derbyn ar ddechrau neu yn ystod y cyfarfod.

4. SYLWADAU'R MAER SY'N YMDDEOL

Croesawodd y Cynghorydd M. Adams, y Maer a oedd yn ymddeol, bawb oedd yn bresennol i Gyfarfod Blynyddol y cyngor a diolchodd i'w gyd-Aelodau am eu cefnogaeth a soniodd am yr fraint a fu o gwrdd â thrigolion a phobl ifanc dalentog y fwrdeistref a oedd yn wirioneddol ysbrydoledig yn ystod ei flwyddyn fel Maer. Diolchodd y Cynghorydd Adams i'w wraig Gloria am weithredu fel ei gymar a'r Cynghorydd J. Simmonds am fod yn ddirprwy iddo dros y deuddeng mis diwethaf. Diolch yn arbennig i Dîm y Swyddfa Ddinesig am eu hamynedd a'u gwaith caled. Wrth gloi ei anerchiad, diolchodd y Cynghorydd Adams i bawb a gefnogodd ei apêl elusennol 'Matthew Walklin Make a Smile Foundation' a chadarnhaodd ei fod yn dal i aros am rai rhoddion ac y byddai'n cyhoeddi'r cyfanswm terfynol cyn gynted â phosibl.

5. I ETHOL MAER Y CYNGOR TAN Y CYFARFOD BLYNYDDOL YM MIS MAI 2020 A GWNEUD TALIAD CYFLOG DINESIG

Cafodd ei symud a'i eilio bod y Cynghorydd J. Simmonds yn cael ei ethol fel Maer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Drwy'r system bleidleisio electronig ac wrth nodi bod 2 aelod heb bleidleisio roedd y mwyafrif yn bresennol yn cytuno â hyn.

PENDERFYNWYD y dylai'r Cynghorydd J. Simmonds gael ei ethol yn Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd nes y penodir olynnydd yn y cyfarfod blynyddol ym mis Mai 2020.

Diolchodd y Cynghorydd J. Simmonds i'w gyd-Aelodau am yr anrhydedd a roddwyd iddo a llofnododd y Datganiad Derbyn Swydd ym mhresenoldeb y Prif Weithredwr Dros Dro. Dywedodd y byddai ei wraig, Karen Simmonds, yn gymar iddo.

6. CYFLWYNO BATHODYNNAU'R CYN-FAER A'I GYMAR

Cyflwynodd y maer y Cynghorydd Adams gyda'i fathodyn maerol yn cydnabod ei rôl fel Maer dros y flwyddyn ddiwethaf.

7. PENODI DIRPRWY FAER Y CYNGOR TAN Y CYFARFOD BLYNYDDOL YM MIS MAI 2020 A GWNEUD TALIAD CYFLOG DINESIG

Cafodd ei symud a'i eilio y dylai'r Cynghorydd C. Andrews gael ei hethol yn Ddirprwy Faeres Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Yna cymerwyd y cynnig gwreiddiol drwy'r system bleidleisio electronig ac wrth nodi bod 2 yn erbyn ac 1 yn ymatal, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD y byddai'r Cynghorydd C. Andrews yn cael ei hethol yn Ddirprwy Faeres Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd nes y penodir olynnydd yn y cyfarfod blynyddol ym mis Mai 2020.

Diolchodd y Cynghorydd C. Andrews i'w chyd-Aelodau am yr anrhydedd a roddwyd iddi a llofnododd y Datganiad Derbyn Swydd ym mhresenoldeb y Prif Weithredwr Dros Dro. Dywedodd y byddai ei mam, Susan Bradford, yn gymar iddi.

8. CYHOEDDIADAU'R MAER

Mynegodd y Maer, y Cynghorydd J. Simmonds ei anrhydedd a'i fraint o ddod yn Faer. Canmolodd y Cynghorydd Adams am y cyflwyniadau a'r ymrwymadau di-rif a fynychwyd ganddynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae'n edrych ymlaen at flwyddyn ddiddorol, bleserus a phrysur yn y dyfodol. Diolchodd y Cynghorydd Simmonds i'w wraig, Aelodau a swyddogion am eu cefnogaeth ar y pryd ac yn y dyfodol a chyhoeddodd mai'r elusennau dewisol, yn ystod ei gyfnod yn y swydd, yw 'Action for Children' a 'Liver for Life'.

9. I NODI Y BYDD Y CYNGHORYDD D.V. POOLE YN CAEL UWCH DALIAD CYFLOG FEL ARWEINYDD CYNGOR

Cafodd ei symud a'i eilio y dylai'r Cynghorydd D.V. Poole gael ei benodi fel Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a chael uwch daliad cyflog. Drwy'r system bleidleisio electronig a thrwy nodi bod 5 aelod wedi ymatal ac nad oedd 2 o Aelodau wedi pleidleisio, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD y dylid nodi penodiad y Cynghorydd D.V. Poole fel Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'i fod wedi cael uwch daliad cyflog.

10. I NODI PENODIAD DIRPRWY ARWEINYDD/ARWEINWYR A GWNEUD UWCH DALIAD CYFLOG

PENDERFYNWYD y dylid nodi penodiadau'r Cynghorwyr Mrs B. A. Jones ac S. Morgan fel Dirprwy Arweinwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'r ffaith eu bod wedi cael uwch daliad cyflog.

11. AELODAETH Y CABINET

PENDERFYNWYD y dylid nodi'r penodiadau gan Arweinydd y Cyngor o ran aelodaeth y Cabinet a'r ffaith eu bod wedi cael uwch dâl cyflog:-

Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Llywodraethu (a rhannu'r Uwch Daliad Cyflog Dirprwy) Y Cynghorydd Barbara Jones

Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros yr Economi, Seilwaith a Chynaliadwyedd a Phencampwr Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (a rhannu'r Uwch Daliad Cyflog Dirprwy) Y Cynghorydd Sean Morgan

Gwasanaethau Corfforaethol	Y Cynghorydd Colin Gordon
Addysg a Chyflawniad	Y Cynghorydd Philippa Marsden
Yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd	Y Cynghorydd Eluned Stenner
Cartrefi a Lleoedd	Y Cynghorydd Lisa Phipps
Gwasanaethau Cymdogaeth	Y Cynghorydd Nigel George
Gofal Cymdeithasol a Lles	Y Cynghorydd Carl Cuss

12. ARWEINYDD Y PRIF GRŴP GWRTHBLAID – Y CYNGHORYDD C.P. MANN

Cafodd ei symud a'i eilio, bod y Cynghorydd C.P. Mann yn cael ei benodi'n Arweinydd y Prif Grŵp Gwrthblaid ac yn cael uwch daliad cyflog. Drwy'r system bleidleisio electronig ac wrth nodi bod 1 yn erbyn, 4 yn ymatal ac nid oedd 2 Aelod wedi pleidleisio, roedd y mwyafrif a oedd yn bresennol yn cytuno â hyn.

Penderfynwyd y dylid nodi penodiad y Cynghorydd C.P. Mann fel Arweinydd y Prif Grŵp Gwrthblaid a'r ffaith ei fod wedi cael uwch daliad cyflog.

13. DATGANIAD YR ARWEINYDD

Cyflwynodd y Cynghorydd D.V. Poole fel rhan o'i ddatganiad fideo montage a oedd yn amlinellu rhai o'r 600 a mwy o wasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu, bob awr o bob dydd. Dywedodd fod Caerffili yn awdurdod lleol modern a blaengar a dyna pam y penderfynodd ar y dull hwn.

Roedd yr Arweinydd wedi dosbarthu dogfen i bob Cynghorydd cyn y cyfarfod sy'n rhoi blas ar rai o'r pethau y gall y Cyngor deimlo'n falch iawn ohonynt a'r hyn sy'n cael ei gyflawni er lles y cymunedau ar draws y fwrdeistref. Mynegodd y Cynghorydd Poole ei ddiolchgarwch diffuant i'r staff sy'n gweithio'n galed ar draws y sefydliad, am eu proffesiynoldeb a'u hymrwymiad parhaus i bobl Caerffili. Adleisiwyd y gwerthfawrogiad hwn gan yr Aelodau.

Dywedodd y Cynghorydd Poole y bydd llawer o waith yn cael ei wneud dros y misoedd nesaf i helpu i ail-ddiffinio ffurf y Cyngor wrth i Gaerffili gychwyn ar daith o drawsnewid. Bydd angen i Aelodau chwarae rhan allweddol yn y broses hon, fel y bydd y cymunedau, gyda chefnogaeth lawn y trigolion, y gymuned fusnes a phartneriaid allweddol eraill. Athroniaeth y broses drawsnewid hon yw 'Calon Gymdeithasol – Pen Masnachol'. Mae'r athroniaeth hon yn adlewyrchu'r awydd i gynnal egwyddorion cymdeithasol, tra'n cydnabod yr angen i fabwysiadu meddylfryd mwy masnachol yn y ffordd y mae Caerffili yn cynnal busnes yn y dyfodol.

O ran edrych i'r dyfodol yn ystod y 12 mis nesaf, rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am brosiectau sylweddol a fydd yn parhau i ddatblygu a phrosiectau newydd yn cael eu cyflwyno. Mae'r rhain yn cynnwys gwella cyrhaeddiad addysgol a fydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor. Mae'r strategaeth feiddgar 'Uchelgeisiau a Rennir' yn cynnig llwyfan cadarn a fydd yn helpu i roi'r cyfleoedd gorau posibl mewn bywyd i bob dysgwr. Mae cynnydd sylweddol yn parhau i gael ei wneud o ran cyflawni rhaglen SATC – gyda thros 85% o waith mewnol a thros 70% o waith allanol wedi'i gwblhau hyd yma. Mae'r targed o 2020 ar gyfer cwblhau SATC yn dal i fod yn gwbl gyraeddadwy, ac mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cymeradwyo hyn yn llawn yn eu hadolygiad diweddaraf o'r cynllun. Bydd yr agenda ynni hefyd yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol ac yn ddiweddar, mae'r Cabinet wedi cymeradwyo strategaeth uchelgeisiol ar gyfer cerbydau trydan, sy'n amlinellu'r dyheadau i ddarparu seilwaith cerbydau trydan newydd ledled Caerffili.

Bydd gweithio rhanbarthol hefyd yn flaenoriaeth a hysbyswyd yr Aelodau bod Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn parhau i wneud cynnydd cadarn. Bydd yr Arweinydd ynghyd â'r Prif Weithredwr Dros Dro yn parhau i sicrhau bod Caerffili yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer ei thrigolion drwy'r bartneriaeth hon. Mae'n hanfodol bod Caerffili yn cydweithio â'r 9 Awdurdod partner, gan fynd ati i farchnata a hyrwyddo'r fwrdeistref hon er mwyn denu'r swyddi a'r buddsoddiad a fydd yn trawsnewid y rhanbarth yn y dyfodol. Mae prosiectau eraill yn cynnwys datblygu'r strategaeth chwaraeon a gweithgareddau hamdden egniol a'r agenda trawsnewid digidol.

Mewn perthynas â chau'r bwlch rhwng tlodi a ffyniant nododd y Cynghorydd Poole y bydd hyn yn parhau i fod yn ganolbwynt allweddol iddo ef ac i'r Cyngor yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

I gloi, derbyniodd y Cynghorydd Poole fod y cyfnod yn heriol ond hefyd yn un cyffrous ar gyfer Caerffili ac y bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd hefyd ond, drwy gydweithio fel 'Tim Caerffili', mae gan y Cyngor gyfle gwirioneddol i ffynnu.

14. MATERION CYFANSODDIADOL

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn amlinellu materion yn unol â Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i Ran 2 o Erthyglau'r Cyfansoddiad a rhan 3 o'r Cynllun Dirprwyo i Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro. Bydd hyn yn caniatáu i'r newidiadau angenrheidiol y cyfeirir atynt yn yr adroddiad gael eu gwneud i Gyfansoddiad y Cyngor. Roedd y Cyfansoddiad a'r newidiadau arfaethedig (wedi'u tracio mewn llythrennau eidaleg) wedi atodi i'r adroddiad.

Hysbyswyd yr Aelodau bod Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyfarfod Blynyddol benodi o leiaf un Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, Pwyllgor Safonau a Phwyllgorau eraill o'r fath mae'r Cyngor yn ystyried eu bod yn briodol er mwyn ymdrin â materion nad ydynt wedi'u neilltuo i'r Cyngor nac yn swyddogaethau gweithredol. Cymeradwywyd y newidiadau i strwythur y Pwyllgorau Craffu gan y Cyngor, yn ei gyfarfod ar

16eg Ebrill 2019. Mae'r Cyfansoddiad wedi'i ddiwygio i gynnwys y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu canlynol ynghyd â'r Cylch Gorchwyl diwygiedig, ac mae'r aelodaeth i barhau'n 16 aelod fesul Pwyllgor a'r cylch cyfarfod pwyllgorau i aros yn chwe wythnos: Pwyllgor Craffu Addysg, Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau (a'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau), Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol, Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio a'r Pwyllgor Craffu Amgylcheddol.

Nododd yr Aelodau Gylch Gorchwyl pob Pwyllgor Craffu a gofynnwyd iddynt gymeradwyo'r newid enw o ran y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol i Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

Cyfeiriodd Aelod at y weithdrefn Galw i Mewn mewn perthynas â phenderfyniadau'r Cabinet gan nad yw'r cyfnod presennol o 3 diwrnod yn cael ei ystyried yn ddigon o amser i'r Aelodau ymateb a gofynnwyd i'r Cyfansoddiad gael ei ddiwygio i ymestyn y cyfnod amser. Dywedodd y Swyddog Monitro y gellir ymdrin â'r mater hwn drwy gyflwyno adroddiad i'r Cyngor yn y dyfodol. Ceisiwyd eglurhad o ran sut dylid dyrannu seddi Pwyllgor i grwpiau gwleidyddol cyn belled ag y bo'n ymarferol. Cynghorodd y Swyddog fod yr egwyddor o gydbwysedd gwleidyddol yn gymesur â chyfanswm aelodaeth y Cyngor. Fel arfer byddai'r grŵp mwyafrifol yn dominyddu gyda Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau ac eithrio pwyllgorau craffu fel y'u diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol 2011 lle na all y grŵp mwyafrifol gymryd yr holl gadeiryddion ac is-gadeiryddion pwyllgorau craffu. Rhestrwyd adroddiadau yn ddiweddarach ar yr agenda a oedd yn cadarnhau Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion pob Pwyllgor.

Fe'i cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Drwy'r system bleidleisio electronig ac wrth nodi nad oedd 1 aelod wedi pleidleisio, cytunodd y mwyafrif oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn yr adroddiad i wneud y canlynol:-

- (i) Dylid nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad;
- (ii) Bod yr argymhellion a nodir ym mharagraffau 5.3, 5.4, 5.10, 5.12 a 5.15 yn cael eu cymeradwyo.

15. PENODI CADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION I'R PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU AR GYFER Y FLWYDDYN NESAF A GWNEUD TALIAD UWCH GYFLOG

Cafodd ei symud a'i eilio y dylid penodi Aelodau fel Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu canlynol am y flwyddyn nesaf yn unol â'r enwau a gyflwynwyd yn y cyfarfod.

Yna symudwyd ac eiliwyd diwygiad, y byddai'r Cynghorydd Bob Owen yn cael ei enwebu fel Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio. Drwy'r system bleidleisio electronig ac wrth nodi bod 13 o blaid, 41 yn erbyn, 3 yn ymatal ac 1 aelod heb bleidleisio, cafodd y diwygiad ei ddatgan fel wedi methu.

Yna cymerwyd y cynnig gwreiddiol drwy'r system bleidleisio electronig ac wrth nodi bod 4 yn erbyn ac 1 yn ymatal, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD y dylid penodi'r Aelodau canlynol yn Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu canlynol am y flwyddyn i ddilyn ac y bydd y Cadeirydd yn cael uwch daliad cyflog.

Pwyllgor Craffu Addysg

Cadeirydd - y Cynghorydd T. Parry

Is-gadeirydd - y Cynghorydd Mrs C. Andrews

Oedolion a Chymunedau

Cadeirydd - y Cynghorydd L. Binding
Is-gadeirydd - y Cynghorydd J. Bevan

Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau/Pwyllgor Craffu Partneriaethau

Cadeirydd - y Cynghorydd J. Pritchard
Is-gadeirydd - y Cynghorydd G. Kirby

Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Cadeirydd - y Cynghorydd D.T. Davies
Is-gadeirydd - y Cynghorydd A. Hussey

Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio

Cadeirydd - y Cynghorydd J. Ridgewell
Is-gadeirydd - y Cynghorydd C. Forehead

16. PENODI AELODAU AR BWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU

Cynigiwyd y dylid penodi un ar bymtheg o Aelodau i wasanaethu ar y Pwyllgorau Craffu canlynol yn unol â'r enwau a roddwyd i'r Prif Weithredwr Dros Dro gan y grwpiau perthnasol. Cytunwyd yn unfrydol ar y system bleidleisio electronig.

PENDERFYNWYD y dylid penodi un ar bymtheg o Aelodau i wasanaethu ar y Pwyllgorau Craffu canlynol yn unol â'r enwau a roddwyd i Wasanaethau Democrataidd gan y grwpiau perthnasol.

Pwyllgor Craffu Addysg
Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol
Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau/Pwyllgor Craffu Partneriaethau
Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio

17. I BENODI CADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION I BWYLLGORAU

Cynigiwyd y dylid penodi aelodau fel Cadeiryddion a/neu Is-gadeiryddion y Pwyllgorau canlynol am y flwyddyn nesaf yn unol â'r enwau a gyflwynwyd yn y cyfarfod ac y dylid talu uwch gyflog lle bo hynny'n briodol. Drwy'r system bleidleisio electronig ac wrth nodi bod 1 yn erbyn, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD y dylid penodi'r Aelodau canlynol fel Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y pwyllgorau canlynol ar gyfer y flwyddyn i ddilyn a thalu uwch gyflog lle y bo'n briodol a bod hyn yn cael ei nodi:-

Panel Apeliadau (Disgyblu/Achwyniadau)

Cadeirydd - y Cynghorydd W. David
Is-gadeirydd - y Cynghorydd Mrs C. Forehead

Pwyllgor Penodiadau

Cadeirydd - y Cynghorydd Mrs E. M. Aldworth
Is-gadeirydd - y Cynghorydd Mrs C. Forehead

Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

Cadeirydd - y Cynghorydd D. Cushing
Is-gadeirydd - y Cynghorydd G. Kirby

Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu

I'w benodi gan y Pwyllgor

Pwyllgor Trwyddedu

Cadeirydd - y Cynghorydd D. W. R. Preece

Is-gadeirydd - y Cynghorydd J. Simmonds

Y Pwyllgor Cynllunio

Cadeirydd - y Cynghorydd M. Adams

Is-gadeirydd - y Cynghorydd A. Whitcombe

18. PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD I'R PWYLLGOR ARCHWILIO

Nodwyd y bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cael eu penodi yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Archwilio yn dilyn cyfarfod blynyddol y Cyngor ac y bydd taliad uwch gyflog yn cael ei wneud i'r Cadeirydd.

19. PENODI AELODAU I WASANAETHU AR BWYLLGORAU AM Y FLWYDDYN DDILYNOL YN UNOL Â'R ADRODDIAD AR GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL

Cynigiwyd y dylid penodi Aelodau i wasanaethu ar y pwyllgorau rhestredig yn unol â'r enwau a roddwyd i Wasanaethau Democrataidd gan y grwpiau perthnasol. Cytunwyd yn unfrydol ar y system bleidleisio electronig.

PENDERFYNWYD yn amodol ar y rhai blaenorol, y dylid penodi Aelodau i wasanaethu ar y canlynol yn unol â'r enwau a roddwyd i Wasanaethau Democrataidd gan y grwpiau perthnasol:-

Panel Apeliadau (Disgyblu/Achwyniadau)(3 aelod/3 eilydd)

Pwyllgor Penodiadau (7 Aelod ynghyd ag Aelod perthnasol o'r Cabinet)

Pwyllgor Archwilio (12 Aelod)

Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (16 Aelod)

Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu (7 Aelod)

Pwyllgor Trwyddedu a Gamblo/Pwyllgor Tacsî a Chyffredinol (15 Aelod)

Pwyllgor Cynllunio (20 Aelod)

Y Pwyllgor Safonau (2 Aelod/2 eilydd)

Pwyllgor Cabinet Hawliau Tramwy (5 Aelod Cabinet)

20. I FFURFIO IS-BWYLLGORAU/GWEITHGORAU/PANELI A BYRDDAU

Cynigiwyd y dylid penodi Aelodau i wasanaethu ar yr is-bwyllgorau/gweithgorau/panelau a byrddau canlynol yn unol â'r enwau a roddwyd i Wasanaethau Democrataidd gan y grwpiau perthnasol.

Gofynnodd un Aelod i'r Arweinydd ystyried Aelod Annibynnol i fod ar y Grŵp Arweinyddiaeth Craffu. Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Arweinydd ei fod yn fodlon ar y trefniadau presennol a bod y Grŵp hwn yn cynnwys Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu.

Drwy'r system bleidleisio electronig ac wrth nodi bod 6 yn erbyn, 3 yn ymatal ac 1 aelod heb bleidleisio, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD y dylid penodi aelodau i wasanaethu ar yr is-bwyllgorau/gweithgorau/paneli a byrddau canlynol yn unol â'r enwau a roddwyd i Wasanaethau Democrataidd gan y grwpiau perthnasol:-

Panel Cynghori ar Benodi a Diswyddo Llywodraethwyr Awdurdodau Lleol (8 aelod)

Grŵp Rheoli Canol Tref Bargod (6 Aelod Lleol ac Aelod Cabinet)
 Grŵp Rheoli Canol Tref Coed Duon (5 Aelod Lleol ac Aelod Cabinet)
 Grŵp Strategaeth Cyflawni Diogelwch Cymunedol Caerffili (1 Aelod)
 Grŵp Gorchwyl Cartrefi Caerffili (Safonau Ansawdd Tai Cymru) (7 Aelod)
 Fforwm Mynediad Lleol Caerffili (Aelod Cabinet)
 Grŵp Rheoli Canol Tref Caerffili (9 Aelod ward a'r Aelod Cabinet)
 Is-bwyllgor Cyswllt y Cynghorau Cymunedol (16 Aelod)
 Y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (7 Aelod)
 Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Corfforaethol (pob Aelod Cabinet)
 Bwrdd Gwasanaethau Cyflawni Addysg (1 Aelod)
 Pwyllgor Archwilio/Sicrwydd Risg y Gwasanaethau Cyflawni Addysg (2 Aelod)
 Panel Cynghori Cenedlaethau'r Dyfodol (11 Aelod)
 Panel Grantiau i'r Sector Gwirfoddol (15 Aelod)
 Gweithgor Cangen Crymlyn Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu - (Aelodau ward a'r Aelod Cabinet)
 Y Pwyllgor Pensiynau/lawndal (8 Aelod)
 Cyd-Banel Craffu Prosiect Gwyrdd (2 Aelod)
 Grŵp Rheoli Canol Tref Rhisga (5 Aelod Lleol a'r Aelod Cabinet)
 Gweithgor Afon Rhymni (3 Aelod)
 Grŵp Arweinyddiaeth Craffu (Cadeirydd/Is-bwyllgorau Craffu/Pwyllgor Gwasanaethau Democraidaidd a'r Pwyllgor Archwilio)
 Cyngor Ymgynghorol Sefydlog dros Addysg Grefyddol (6 Aelod)
 Panel Safbwynt (Aelodau Cabinet perthnasol)
 Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol (15 Aelod)
 Grŵp Rheoli Canol Tref Ystrad Mynach (4 Aelod Lleol a'r Aelod Cabinet)

21. I BENODI/ENWEBU CYNRYCHIOLWYR I WASANAETHU AR GYRFF ALLANOL

Cynigiwyd y dylid penodi Aelodau i eistedd ar y cymdeithasau a chyrrff allanol canlynol. Drwy'r system bleidleisio electronig ac wrth nodi bod 1 yn erbyn, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

Penderfynwyd bod y Cyngor yn cael ei gynrychioli ar gymdeithasau a chyrrff allanol gan yr Aelodau a/neu swyddogion canlynol:-

Cyngor Iechyd Cymunedol Aneurin Bevan

Y Cynghorwyr D. Price, Mrs T. Parry, J. Simmonds

Pencampwr Gwrthdlodi

Yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Llywodraethu -

Y Cynghorydd Mrs B.A. Jones

Cronfa Les y Fyddin - Gwent

Y Cynghorydd A. Whitcombe

Pencampwr Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog

Y Cynghorydd A. Whitcombe

Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus - Pwyllgor Rhanbarth Cymru

Yr Aelodau Cabinet dros Wasanaeth Corfforaethol, Cartrefi a Lleoedd, yr Economi, Seilwaith a Chynaliadwyedd - y Cynghorwyr C.J. Gordon, Mrs L. Phipps ac S. Morgan

Panel Maethu Caerffili

Y Cynghorydd J. Simmonds

Grŵp Lleihau Carbon

Yr Aelod Cabinet dros yr Economi, Seilwaith a Chynaliadwyedd - y Cynghorydd S. Morgan

Cyd-bwyllgor Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (Cabinet Rhanbarthol)

Arweinydd y Cyngor – y Cynghorydd D.V. Poole a'r Aelod Cabinet dros yr Economi, Seilwaith a Chynaliadwyedd - y Cynghorydd S. Morgan

Gofal a Thrwsio - Caerffili

Yr Aelod y Cabinet dros Gartrefi a Lleoedd - y Cynghorydd Mrs L. Phipps a Rheolwr Tai y Sector Preifat

Pencampwr Tlodi Plant

Yr Aelod y Cabinet dros Ofal Cymdeithasol a Lles - y Cynghorydd C.J. Cuss

Bwrdd Ymddiriedolwyr y Ganolfan Cyngor ar Bopeth

Yr Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol - y Cynghorydd C.J. Gordon

Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gwent (Partneriaeth Gymunedol Crosskeys)

Y Cynghorydd D.T. Hardacre

Coleg Harlech WEA y Gogledd

Yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad - y Cynghorydd P. Marsden

Corfforaeth Coleg y Cymoedd (Bwrdd Llywodraethwyr Coleg Ystrad Mynachgynt)

Sian Farquharson, Ymgynghorydd Her GCA

Consortiwm Awdurdodau Lleol yng Nghymru

Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Gartrefi a Lleoedd - y Cynghorwyr D.V. Poole a Mrs L. Phipps

Grŵp Rhianta Corfforaethol

Yr Aelodau Cabinet dros Ofal Cymdeithasol a Lles ac Addysg a Chyflawniad - y cynghorwyr C.J. Cuss a Mrs P. Marsden, y Cynghorwyr L. Binding, D. Cushing, Ms J. Gale (Aelod o'r Panel Maethu)

Grŵp Diogelu Corfforaethol

Yr Aelodau Cabinet dros Ofal Cymdeithasol a Lles ac Addysg a Chyflawniad - y cynghorwyr C.J. Cuss a Mrs P. Marsden a'r Cynghorydd D. Cushing, 1 annibynnol

Pencampwr Cyfeillion Dementia

Y Cynghorydd Mrs C. Andrews

Pencampwyr Cam-drin Domestig

Aelodau'r Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Cymdogaeth - y Cynghorwyr C.J. Gordon ac N. George

Pencampwr Cydraddoldeb

Y Cynghorydd J. Pritchard

Fields in Trust (Cymdeithas Genedlaethol y Meysydd Chwarae gynt)

Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth - y Cynghorydd Nigel George

Pencampwr Cenedlaethau'r Dyfodol

Yr Aelod Cabinet dros yr Economi, Seilwaith a Chynaliadwyedd - y Cynghorydd S. Morgan

Cydbwyllgor Archifau Morgannwg
Y Cyngorwyr Mrs B.A. Jones ac A. G Higgs

Cyd-bwyllgor Amlosgi Gwent Fwyaf
Y Cyngorwyr J. Simmonds a J. Taylor

Groundwork Cymru
Y Cyngorydd D. Havard

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent
Y Swyddog Perthnasol a'r Cyngorydd A. Higgs

Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol
Yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol a Lles - y Cyngorydd C.J. Cuss

Cydbwyllgor Archifau Gwent
Y Cyngorwyr Mrs B.A. Jones ac A. G Higgs

Panel Heddlu a Throseddau Gwent - yn wleidyddol gytbwys ar draws Gwent
Y Cyngorwyr Mrs C. Forehead, G. Kirby a C.P. Mann

Pencampwr Pobl Digartref
Yr Aelod Cabinet dros Gartrefi a Lleoedd - y Cyngorydd Mrs L. Phipps

Cynghrais Cymunedau Diwydiannol (yr Ymgyrch Cymunedau Glofaol gynt)
